Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llandygai**
**Llandygai**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4HU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llandygai wedi'i lleoli ym mhentref Llandygai tua dwy filltir o ddinas Bangor. Mae'n ysgol sydd o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal o gwmpas. Daw oddeutu 56% o'r disgyblion o bentrefi sydd y tu allan i ddalgylch naturiol yr ysgol. Caiff yr ardal leol ei disgrifio fel un nad yw'n ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mae gan tua 17% o ddisgyblion hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sydd ychydig yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 mlwydd oed. Mae 170 o ddisgyblion ar y gofrestr sy'n cynnwys 12 o blant meithrin rhan-amser, ac maent wedi'u trefnu yn saith dosbarth. Mae dau ddosbarth yn cynnwys disgyblion o oedrannau cymysg. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o deuluoedd teithwyr ac nid oes yr un disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae oddeutu 20% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r disgyblion yn cwmpasu ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae gan oddeutu 38% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn llawer uwchlaw'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae nifer fechan o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llandygai yn 2011-2012 yn golygu cyllideb o £3,009 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r isafswm yw £2,745. Mae Ysgol Gynradd Llandygai yn 86fed o'r 102 ysgol gynradd yn awdurdod Gwynedd o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn natur yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf ym Mai 2006. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Mai 2011.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd Saesneg ac mewn llafaredd a darllen Cymraeg;
- gallu da y rhan fwyaf o ddisgyblion i wella'u medrau dysgu;
- bod profiadau dysgu o ansawdd da;
- bod addysgu gan fwyaf yn dda a bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u sefydlu'n gadarn trwy'r ysgol; a
- chaiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei hyrwyddo'n llwyddiannus.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda oherwydd:

- gallu'r pennaeth i gydlynu ymrwymiad staff, disgyblion, a llywodraethwyr yn hynod effeithiol;
- bod diwylliant cryf o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi'i sefydlu'n gadarn trwy'r ysgol;
- bod y corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol fel cyfaill beirniadol mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol;
- bod yr ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu gref; a bod
- staff ac adnoddau yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 gynyddu'r canrannau o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau 3 a 5;

A2 gwella presenoldeb; a

A3 gwella'r cyflenwad o lyfrau darllen.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'u medrau llafar, llythrennedd a chyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Yn ystod sesiynau torfol, mae'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae nifer dda yn darllen yn rhugl ac yn ysgrifennu gyda chywirdeb cynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n gyson mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr rhugl ac yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r darllenwyr mwyaf medrus yn defnyddio llyfrau gwybodaeth Saesneg yn effeithiol iawn i atgyfnerthu eu gwaith yn y Gymraeg ac yn ysgrifennu'n dda mewn ffurfiau amrywiol ac at wahanol ddibenion.

Gwna disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Blynyddoedd 3 a 4 gynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn anghyson ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 gyda lleiafrif o ddysgwyr y Gymraeg yn gwneud gwallau sylfaenol yn eu mynegiant llafar a'u hysgrifennu.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod tair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed) wedi bod yn bennaf yn y 50% isaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf mae canran disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch (y lefel ddisgwyliedig) yn y 50% isaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau Saesneg a gwyddoniaeth gan amlaf wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion sydd yn yr un teulu.

Yn 2011, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn debyg i'r meincnodau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn yr un teulu. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 ychydig yn uwch na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau ysgolion o'r un teulu. Mae'r gyfran a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn Gymraeg ac yn arbennig ysgrifennu Cymraeg, yn is na'r meincnodau hyn.

Tros gyfnod, mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd Blwyddyn 2 llawer yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg. Mae'r canlyniadau ar y lefelau uwch ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn anwastad ar draws y pynciau ac yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn. Mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith, mae safonau a chynnydd llawer o'r disgyblion yn gyson a phriodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn cyflawni eu

tasgau'n llwyddiannus. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mewn gwersi, maent yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn hyderus. Mae medrau datrys problemau a medrau meddwl disgyblion o bob oedran yn gyson dda.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchfyd yr ysgol a'u bod yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol gydag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith llesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, mae bron pob un yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Mae llawer yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Er bod cnewyllyn bychan o ddisgyblion hŷn yn arddangos diffyg ymglymiad i'w gwaith ac, ar brydiau, yn ymddwyn yn amhriodol, nid ydynt yn rhwystro disgyblion eraill rhag gwneud eu gwaith.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn hyderus iawn wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i wella eu dysgu.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol ac yn ddylanwadol ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Bu cyfnod o ostyngiad graddol yng nghyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf. Er bod canrannau'r ysgol yn y flwyddyn 2010-2011 ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg, bu gwelliant o dros 2% yn ystod y ddau dymor cyn yr arolygiad. Gellir priodoli hyn i weithredu bwriadus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion y disgyblion ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt ddatblygu llawer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ehangder o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol a gynllunnir yn galluogi plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol. Mae cynlluniau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth blaenorol disgyblion ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Caiff y profiadau dysgu eu cyfoethogi ymhellach gan amrywiaeth o ymweliadau addysgol, clybiau a gweithgareddau eraill.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau allweddol, ac yn arbennig medrau llythrennedd, medrau meddwl a datrys problemau, wedi'u cynllunio'n drylwyr trwy'r ysgol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth a anelir at ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd isel, yn galluogi'r disgyblion hyn i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae arferion bob dydd yr ysgol ynghyd â gweithgareddau'r cyngor eco, yn cyfrannu'n dda tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd. Caiff y dimensiwn Cymreig le amlwg yng nghwricwlwm a gweithgareddau'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu'n dda. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn cynllunio'n drwyadl ac yn pennu amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu herio gan weithgareddau ysgogol sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Ym mhob dosbarth, caiff staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol iawn i wella dysgu. Darperir cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau disgyblion a rhoddir pwyslais cryf ar eu hyrwyddo'n ddysgwyr annibynnol. Caiff ystod eang o strategaethau addysgu a threfniadaeth eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn sicrhau ymglymiad disgyblion i'r gwaith dan sylw. Mewn ychydig o wersi nid yw'r tasgau'n ddigon heriol ar gyfer ymestyn disgyblion uwch eu gallu.

Mae strategaethau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer asesu dysgu a hefyd asesu ar gyfer dysgu. Trwy farcio pwrpasol, yn arbennig ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, caiff disgyblion arweiniad defnyddiol ynghlych safon eu gwaith ond nid yw hyn yn gyson trwy'r ysgol. Mae'r arfer o roi rôl weithredol i ddisgyblion yn y prosesau asesu yn hyrwyddo deilliannau dysgu da. Caiff cynnydd pob disgybl ei gofnodi'n rheolaidd a defnyddir gwybodaeth asesu yn fedrus ar gyfer nodi'r camau nesaf mewn dysgu.

Mae'r adroddiadau blynyddol a ddarperir i rieni o ansawdd da ac yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a phriodol. Llwydda'r staff i greu amgylchedd diogel ac ethos cyfeillgar lle caiff iechyd a lles disgyblion flaenoriaeth uchel. Mae'r staff yn ymateb yn gyflym i unrhyw achosion honedig o aflonyddu neu fwlio. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Caiff buddion bwyta'n iach, ffitrwydd ac ymarfer corff rheolaidd eu hyrwyddo'n gyson ac yn effeithiol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Yn ystod addoli ar y cyd ac achlysuron eraill, cânt eu hannog i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill ac i drafod gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch.

Mae'r gynhaliaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn drefnus. Caiff y ddarpariaeth ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'r gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau addysg unigol manwl a chânt eu hadolygu'n rheolaidd unwaith y tymor. Mae'r staff cymorth yn cefnogi'r disgyblion yn effeithiol o fewn y dosbarthiadau. Caiff asiantaethau allanol eu defnyddio'n briodol i gefnogi disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau ymddygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn effeithiol ac yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad llawn i'r holl feysydd o ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn sicrhau pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch.

Mae cyflenwad da o adnoddau perthnasol o ansawdd da ar gyfer bron pob maes dysgu. Ar y cyfan, mae'r adnoddau wedi'u gweddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu. Fodd bynnag, mae'r prinder llyfrau Cymraeg addas ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a ffuglen Saesneg safonol yng nghyfnod allweddol 2, yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i ddarllenwyr hyderus. Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r adeilad ynghyd â'r tiroedd o gwmpas yr ysgol o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n ddychmygus gan athrawon i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac i godi safonau cyflawniad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r pennaeth wedi sefydlu diwylliant sy'n gyson yn archwilio ffyrdd o godi safonau cyflawniad disgyblion. Caiff gefnogaeth dda gan staff ymroddgar sydd yn gweithio'n agos fel tîm, sy'n rhannu gwerthoedd a disgwyliadau ac yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chymorthyddion yn effeithiol a gaiff eu defnyddio'n bwrpasol ar gyfer diwallu anghenion datblygu unigolion ac ysgol gyfan.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol fel cyfaill beirniadol yn broffesiynol ac effeithiol. Trwy gymryd rhan weithredol ym mhrosesau hunanarfarnu a dehongli data perfformiad, maent yn wybodus iawn am gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen gwelliant. Mae ganddynt bwyllgorau penodol i oruchwylio rheolaeth ariannol, adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau eu bod yn cwrdd â'u gofynion statudol yn llawn.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw manwl i nifer dda o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Caiff strategaethau asesu ar gyfer dysgu eu gweithredu'n drylwyr ym mhob dosbarth, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n gadarn iawn a rhoddir sylw manwl i ddatblygu medrau dysgu yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith cadarnhaol iawn ar ddeilliannau a phrofiadau dysgu disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Defnyddia’r ysgol ystod eang o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith gan roi ystyriaeth dda i farn rhieni, staff a disgyblion. Mae’r arweinwyr yn parchu barn disgyblion ac yn mabwysiadu rhai o’r syniadau megis darparu mwy o adnoddau chwarae yn ystod amser egwyl, y maent yn eu cynnig. Mae’r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac wedi ei seilio’n gadarn ar dystiolaeth monitro gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae’r staff i gyd yn cyfrannu ac yn cael dylanwad yn y broses. O ganlyniad, mae’r broses hunanarfarnu a’i deilliannau yn adnabod cryferau’r ysgol yn glir ac yn blaenoriaethu’r agweddau sydd angen eu gwella.

Mae cysylltiad cryf rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn gynhwysfawr, yn canolbwyntio ar godi safonau ac mae’r meini prawf llwyddiant yn berthnasol a heriol. Mae’n dangos yn glir y camau gweithredol, amserlenni addas ar gyfer eu rhoi ar waith ynghyd â’u costau cysylltiedig.

Mae’r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu gref ac wedi sefydlu diwylliant o gydweithio clos gyda nifer o ysgolion eraill yn yr ardal leol. Mae effaith y rhwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol hyn wedi hyrwyddo gwelliannau mewn nifer o feysydd megis asesu ar gyfer dysgu ac arweinyddiaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos gydag ystod eang o bartneriaid sy’n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill, gan gynnwys cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch meithrin a’r ysgol, yn effeithiol. Mae ansawdd cyfathrebu rhwng yr ysgol a’r cartref gan fwyaf yn dda. Mae’r gymdeithas rieni ac athrawon yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau ac yn codi arian i wella’r ddarpariaeth addysgol. Mae ychydig o rieni ac aelodau o’r gymuned yn cyfrannu at waith cwricwlaidd i wella medrau darllen disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar feithrin a chynnal diddordeb a mwynhad y disgyblion at ddarllen.

Mae’r cynlluniau trosglwyddo buddiol sydd gyda’r ddwy ysgol uwchradd leol yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi’n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Lleolir y Cylch Mudiad Meithrin o fewn yr ysgol ac mae cyswllt effeithiol rhwng yr ysgol a’r lleoliad. Mae’r ysgol yn manteisio ar fedrau pobl o fewn y gymuned er mwyn cyfoethogi profiadau’r dysgwyr ac mae’n gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau a sefydliadau eraill i gyflwyno rhaglenni cysylltiedig sy’n gwella deilliannau a lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae’r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda trwy fanteisio'n effeithiol ar eu hamser a'u harbenigedd i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu eu hadolygu'n gyson a chynllunnir yn fanwl ar gyfer anghenion y dyfodol. Mae trefniadau cyllidebu systematig a chywir yn eu lle ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion. Mae deilliannau disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn ystod tair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed) wedi bod yn bennaf yn y 50% isaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 dros yr un cyfnod wedi amrywio'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall. Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch (y lefel ddisgwyliedig) yn y 50% isaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae canlyniadau Saesneg a gwyddoniaeth gan amlaf wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion sydd yn yr un teulu. Er bod canlyniadau ysgrifennu Cymraeg wedi gwella'n gyson yn ystod y tair blynedd diwethaf, maent wedi bod yn llawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2011 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol â'r meincnodau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn yr un teulu. Mae nifer y disgyblion mwy galluog a gyrhaeddodd y lefel 3 uwch mewn unrhyw un o'r tri phwnc dros 15% yn is na chyfartaledd y teulu.

Yn 2011, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn debyg iawn i'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau ysgolion o'r un teulu. Mae'r gyfran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y lefel 5 uwch mewn Cymraeg a mathemateg yn is na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu. Fodd bynnag, gyda dros 40% yn cyflawni lefel 5 mewn Saesneg ac mewn gwyddoniaeth, roedd perfformiad yr ysgol yn llawer uwch na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu.

Er bod perfformiad merched yn well na pherfformiad bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhywiau erbyn cyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd 41 o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef oddeutu traean o deuluoedd yr ysgol. Roedd bron i hanner yr holiadur yn mynegi bodlonrwydd ynghylch yr ysgol sydd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni bod eu plentyn yn:

- gwneud cynnydd da a bod disgwyl iddynt weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- hoffi'r ysgol a'i fod wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- ddiogel yn yr ysgol a bod staff yn parchu pob unigolyn ac yn eu trin yn deg;
- cael ei annog i fod yn iach ac yn cael ei helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Dywed llawer o'r rhieni:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol a bod addysgu a rheolaeth yr ysgol yn dda:
- y cânt wybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r staff; a
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol a'i fod wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

Teimla lleiafrif o rieni nad yw ymddygiad disgyblion yn dda ac nad oes amrywiaeth priodol o weithgareddau ar gyfer eu plant. Roeddent hefyd o'r farn nad oedd cyfathrebu da rhwng yr ysgol a'r rhieni.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Roedd y rhan fwyaf o'r 72 o holiaduron disgyblion a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol sy'n cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Dywed bron pob disgybl:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff rheolaidd a'u bod yn cael help gan athrawon ac oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i wneud cynnydd a'u bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol; a'u
- bod yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

Teimla dros chwarter y disgyblion nad oes ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| April Wiggins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Caroline Hughes | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.